# Rheolaethau manylach ar gynhyrchu llaeth amrwd (Cymru a Lloegr)

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 7 Chwefror 2019
Dyddiad cau: 30 Ebrill 2019

## Crynodeb o ymatebion

### England and Wales

PDF
Gweld Rheolaethau manylach ar gyfer cynhyrchu llaeth amrwd (Cymru a Lloegr) - Adroddiad crynhoi ymatebion rhanddeiliaid (Saesneg yn un as PDF(Open in a new window) (227.21 KB)

## Yngl?n â'r ymgynghoriad hwn

Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb i:

- gynhyrchwyr llaeth amrwd
- proseswyr llaeth amrwd
- sefydliadau masnach llaeth
- defnyddwyr llaeth amrwd
- awdurdodau gorfodi

### Pwnc ymgynghori

Rheolaethau manylach ar gynhyrchu Llaeth Yfed Amrwd i'w yfed/bwyta gan bobl.

### Diben yr ymgynghoriad

Rhoi cyfle i bawb sydd â diddordeb roi sylwadau ac adborth ar y newidiadau arfaethedig i gyflwyno rheolaeth swyddogol Llaeth Yfed Amrwd ac effaith gysylltiedig y newidiadau.

Mae'r ymgynghoriad wedi'i ddatblygu gyda mewnbwn gan weithgorau â nifer o randdeiliaid gwahanol. Rydym ni wedi penderfynu bod ymgynghoriad 12 wythnos o hyd yn gymesur i geisio barn rhanddeiliaid ehangach.

## Pecyn ymgynghori

PDF
Gweld Dogfen ymgynghori: llythyr i bawb sydd â diddordeb ac atodiadau (Saesneg yn unig) as PDF(Open in a new window) (2.33 MB)

## Sylwadau a barn

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at:

Cangen Polisi Hylendid Bwyd
Asiantaeth Safonau Bwyd
Llawr 7
Clive House
70 Petty France
San Steffan
Llundain
SW1H 9EX

E-bost: foodhygiene.policy@food.gov.uk

## Cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion

O fewn tri mis ar ôl i’r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn anelu at gyhoeddi crynodeb o’r ymatebion a chynnwys dolen iddo ar y dudalen hon. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Mae’r ymgynghoriad hwn wedi’i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori llywodraeth y DU.. Os oes Asesiad Effaith wedi’i lunio, bydd wedi’i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm dros hynny y ddogfen ymgynghori.